

13. Beth Petai?

Gellir defnyddio wyth person i gyflwyno'r sgets fer hon, er bod modd ei gwneud gyda llai na hynny:

- LLEFARYDD
- BRENIN 1, 2 a 3
- BUGAIL 1, 2, a 3
- ANGEL

Llefarydd: Un tro, amser maith yn ôl, amser maith iawn yn ôl a dweud y gwir, mewn gwlad bell iawn, oherwydd mae pob stori dda yn dechrau rhywbeth yn debyg i hynny, cyfarfu tri brenin â'i gilydd. Roedden nhw'n cyfarfod i gael sgwrs athronyddol ddofn ar ystyr yr Ontolegol a'i ddylanwad ar ansawdd bywyd; a'r arwyddocâd eschatolegol mewn perthynas â dadrithiad moesol yr oes; ar ddylanwad y meddylwyr Capadrocaidd ar foderniaeth yng nghyfnod yr Oesoedd Canol; ar obaith Wrecsam o ennill y cwpan; a phethau tebyg i hynny. Y pethau pwysig mewn bywyd.

Yn sydyn, ymddangosodd seren lachar yn yr awyr. Edrychodd y tri i fyny yn syn, ac am ychydig, fe achosodd hyn benbleth iddyn nhw, hynny yw hyd nes i'r cyntaf ohonyn nhw sylweddoli ei harwyddocâd, a'i esbonio i'r gweddill.

Brenin 1: Mae'r fflach, mae'n amlwg, yn ddigwyddiad rhyngalactig, sydd dros ddeng miliwn o filltiroedd i ffwrdd. Mae yna elfen o'r cosmos yn cyfarfod gwrthrych o ofod estron. Oherwydd bod gwres ar y planedau yma dros filiwn o weithiau'n gynhesach na'r haul, mae hyn yn achosi ffrwydrad sydyn llachar. Rhyw ddiwrnod, mi fyddwn ni'n gallu anfon llong ofod i fyny i'r planedau hyn, i archwilio ac i arbrofi. Byddwn ni wedyn yn medru dod i gasgliad llawn a chywir am y fflachiadau yma yn yr awyr. Tan hynny ... oes yna ragor o goffi ar ôl?

Llefarydd: Myfyriodd y ddau arall ar hyn yn ddwys, ond yn amlwg heb eu bodloni. Un peth oedd gwybod beth achosodd i'r seren ddisgleirio'n llachar, ond beth oedd ei harwyddocâd? Beth oedd ystyr y fflach iddyn nhw? Onid dyna oedd yn bwysig? Gyda hynny fe astudiodd yr ail frenin ei lyfrau, gan wneud ymchwiliad manwl o'r maes. Yna, rhannodd ffrwyth ei ymchwil gyda'r gweddill.

Brenin 2: Ar hyn o bryd, mae'r lleuad ar ei hail daith o amgylch yr orbit, gan drigo gerllaw Acwariws. Gyda'r blaned Mawrth, ar hyn o bryd, gerllaw, mi ddylwn fod yn lwcus mewn cariad. Mi ddylwn gyfarfod â merch ifanc ddeniadol. Gan fod Cancr hefyd gerllaw a Fenws yn pellhau, mi allwn gael ychydig o broblemau ariannol, ond gellir gorchfygu'r rhain trwy fod yn ddoeth a gofalus. Gyda gwedd y sêr yn eu safle priodol, mi fydd 5 yn rhif lwcus i mi. Hei, all un ohonoch chi roi benthyg £5 i mi?

Llefarydd: Ni fedrai'r un ohonyn nhw wneud. Ac er gwaethaf esboniad ei ddau ffrind, doedd y trydydd brenin ddim yn hapus. Roedd yn rhaid bod yna fwy i'r cyfan na fflach sydyn, lwc a siawns. Bu yntau am weddill y noson yn damcaniaethu

yn ddwfn ynglŷn â'r damcaniaethau nefolaidd hyn. Yna, yn ddwys ac yn ddifrifol, meddai:

- Brenin 3: U.F.O. yw e. A mwy na thebyg ei fod e'n llawn o ddynion bach gwyrdd. Dynion bach gwyrdd cas sydd yn mynd i'n bwyta ni i gyd yn fyw. Maen nhw'n siŵr o'n lladd ni, ac wedyn maen nhw'n siŵr o feddiannu'r Ddaear. Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth. Does yna ddim pwrpas i ni eistedd yn fan hyn. Beth am fynd i guddio yn rhywle? Help!
- Llefarydd: Yn y cyfamser ar fryn gerllaw Bethlehem, roedd yna nifer o fugeiliaid syml yn gwyllo eu defaid. Yn sydyn, mewn fflach, disgleiriodd yr awyr yn oleuni llachar, ac ymddangosodd angel iddyn nhw, gan ddweud:
- Angel: Peidiwch ag ofni, wele yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newyddion am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chi heddiw, yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd, a dyma arwydd i chwi: cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban, ac yn gorwedd mewn preseb.
- Llefarydd: Roedd y bugeiliaid wedi synnu. Wedi rhyfeddu a dweud y gwir. Doedden nhw ddim wedi gweld dim byd tebyg i hyn erioed o'r blaen. Bu distawrwydd, ond ar ôl ychydig, penderfynodd un ohonyn nhw fod yn rhaid dweud rhywbeth.
- Bugail 1: [*Fel petai'n siarad ag ef ei hun*] Mae'n rhaid mod i'n dechrau mynd yn wallgo. Mae'n rhaid mod i'n colli arnaf fy hun. Am eiliad, mi wnes i ddychmygu mod i wedi gweld angel. Os dyweda i rywbeth wrth un o'r gweddill, mi fyddan nhw'n meddwl mod i'n dechrau mynd yn rhyfedd. Mi fyddan nhw'n siŵr o fynd â fi i'r ysbyty ym Methlehem. Y peth gorau, rwy'n meddwl, ydy dweud a gwneud dim. Cau 'ngheg, a chadw'n dawel.
- Y! Mae'n noson braf heno fechgyn.
- Llefarydd: Wrth gwrs, ni fedrai'r un ohonyn nhw wadu'r hyn oedd newydd ddigwydd, oherwydd roedd pawb wedi sylwi ar y goleuni. Ac ymhen ychydig, dywedodd un o'r bugeiliaid eraill:
- Bugail 2: Sylwoch chi ar y goleuni llachar 'na? Rwy'n meddwl ei fod yn beth rhyfedd iawn. Efallai mai ysbryd oedd e, neu anghenfil. Anghenfil â choesau hir blewog. Beth bynnag, dydw i ddim eisiau aros yma trwy'r nos. Byddai'n well gen i fynd adref. Rydw i am fynd adre at Mam a Dad nawr. Yn enwedig gan ei bod hi'n Nadolig.
- Llefarydd: Ond doedd y trydydd bugail ddim yn credu mewn ysbrydion, nac mewn bwystfilod chwaith. Doedd e ddim wedi cael ei ddychryn mor hawdd.
- Bugail 3: U.F.O. yw e. A mwy na thebyg ei fod e'n llawn o ddynion bach gwyrdd. Dynion bach gwyrdd cas sydd yn mynd i'n bwyta ni i gyd yn fyw. Maen nhw'n siŵr o'n lladd ni, ac wedyn maen nhw'n siŵr o feddiannu'r Ddaear. Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth. Does yna ddim pwrpas eistedd fan hyn. Beth am fynd i guddio yn rhywle? Help!

Llefarydd: Beth petai'r cyfan wedi digwydd fel yna? Beth petai'r brenhinoedd wedi rhesymu'r cyfan, gan ddamcaniaethu am ymddangosiad y seren lachar, yn hytrach na mynd i addoli'r baban Iesu? Beth petai'r bugeiliaid wedi penderfynu peidio â derbyn mai neges ddwyfol gan yr angylion oedd yr hyn a ddigwyddodd ar y brynau gerllaw Bethlehem? Beth petaen nhw wedi breuddwydio am ysbrydion yn hytrach na cheisio'r Brenin tlawd mewn stabl ym Methlehem? Beth petai ... na ... fyddai hynny ddim yn gwneud synnwyr ... Ond beth petaech chi'n gwrthod y gwahoddiad i droi at Iesu? Ond na, fyddech chi ddim mor wirion â hynny chwaith.

DIWEDD